**Adroddiad ar**

**Gungrog Happitots**
**Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Gungrog**
**Y Trallwng**
**Powys**
**SY21 7EJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol, sef:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2016**

## Ynglŷn â'r lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Gungrog Happitots |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Unigolyn Cofrestredig/Unigolion Cofrestredig | Cyngor Sir Powys (Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Gungrog) |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Justine Anne Baldwin |
| Unigolyn sydd â gofal | Catherine Margaret Trewin |
| Nifer y lleoedd | 36 |
| Ystod oedran y plant | Dwy a thair oed |
| Nifer y plant y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg | 12 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9am tan 11.30am dydd Llun i ddydd Gwener |
| Iaith y lleoliad | Saesneg gydag ychydig o ddefnydd o'r Gymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | Rhagfyr 2013 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 26 a 27 Ionawr 2016 |
| **Gwybodaeth Ychwanegol**<br>Mae bron pob un o'r plant yn siarad Saesneg fel iaith eu haelwyd. Ychydig iawn o blant sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r lleoliad yn ddarparwr Dechrau'n Deg. | |

# Crynodeb o'r Adroddiad

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Da |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Diffyg cydymffurfio**

**Fe wnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 8 (1) (3) (a), Atodlen 1, para 30 (b), ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn.**

Y rheswm am hyn yw, er bod tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) gan yr unigolyn sydd â gofal, nid oedd y dystysgrif hon wedi cael ei chydlofnodi gan Weinidogion Cymru.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau datrys problemau a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A2 Parhau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg

A3 Sicrhau bod cynllunio yn gwneud y defnydd gorau posibl o wybodaeth asesiadau i fodloni anghenion plant unigol yn well

A4 Gwella darpariaeth barhaus ac estynedig i roi mwy o ffocws ar ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd

A5 Sicrhau bod ffeiliau staff yn cynnwys manylion a dogfennau sy'n benodol i'w rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad yn unig

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn creu cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| **Lles** | Da |
| --- | --- |

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau gwybodus. Er enghraifft, gallant ddewis beth i chwarae ag ef neu gyda phwy, a'r hyn y maent eisiau ei fwyta a'i yfed amser byrbryd. Mae bron pob un o'r plant yn hyderus, yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ac yn manteisio ar adnoddau yn annibynnol i gefnogi eu chwarae. Maent yn gwybod y bydd ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn eu helpu os bydd angen.

Mae llawer o blant sy'n ddwy oed a bron pob un o'r plant sy'n dair oed yn cyfathrebu'n glir â'u ffrindiau ac ymarferwyr i fynegi eu safbwyntiau. Mae ychydig iawn o blant iau yn cyfathrebu'n effeithiol trwy arwyddion i gyfleu eu teimladau. Mae llawer o blant hŷn yn mynegi eu bod yn mwynhau gweithgaredd trwy osod blodyn haul naill ai mewn blwch ie neu na pan ofynnir iddynt, "a wnaethoch chi fwynhau'r gweithgaredd?" Mae bron pob un o'r plant yn cyfrannu syniadau at destun, er enghraifft bwydo adar fel rhan o'u hardal chwarae rôl Byd y Gaeaf.

Caiff pob un o'r plant eu croesawu gyda chyfarchiad llon "bore da" gan y staff, a gofynnir iddynt sut maent. Mae bron pob un o'r plant yn falch o weld y staff ac yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni. Mae gan bron bob un o'r plant ymlyniadau cadarnhaol ag un ymarferwr neu fwy, ac maent yn dangos hoffter ac anwyldeb diffuant tuag atynt. O ganlyniad, mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn barod i chwarae a dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda ac yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae ymarferwyr yn ei ofyn ohonynt. Mae bron pob un o'r plant yn gwybod yr arferion dyddiol yn dda; maent yn gwybod pryd i dacluso ar gyfer amser cofrestru ac mae bron pob un o'r plant yn rhoi adnoddau o'r neilltu yn ofalus. Er enghraifft, mae pob un o'r plant sy'n dair oed a mwyafrif y plant sy'n ddwy oed yn cario eu cadeiriau o'r ystafell flêr i'r brif ystafell ar gyfer amser cylch yn synhwyrol ac yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn eistedd yn dawel wrth y bwrdd byrbryd ac maent yn foesgar a chwrtais wrth gasglu eu byrbrydau a thalu amdanynt wrth y til.

Mae bron pob un o'r plant wedi eu cymell ac yn ymgysylltu â'u chwarae a'u dysgu, ac yn cael synnwyr o gyflawniad yn yr hyn a wnânt. Er enghraifft, yn ystod sesiwn gerddoriaeth a symud, dangosodd bron pob un o'r plant bleser mewn dilyn cyfarwyddiadau yn gywir. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau hunangymorth yn dda ac maent yn awyddus i roi cynnig ar bethau newydd, fel creu lluniau marmor neu ddefnyddio gliter i greu lluniau o olygfeydd oer.

| **Dysgu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig)** | Da |
| --- | --- |

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn awyddus i roi cynnig ar bethau newydd ac yn dysgu oddi wrth eu camgymeriadau.

Mae medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n ofalus ar gwestiynau am y tywydd ac yn ymateb yn briodol. Yn ystod amser stori, maent yn dangos diddordeb bywiog yn y stori ac yn dangos pleser wrth ragweld beth sy'n dod nesaf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu mynegi eu hunain yn eglur ac yn magu hyder wrth siarad â'i gilydd a gydag oedolion. Mae bron pob un ohonynt yn ymuno mewn caneuon, yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd, yn frwdfrydig. Mae medrau darllen ac ysgrifennu cynnar plant yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud trwy'r lleoliad. Erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae llawer ohonynt yn adnabod eu henw, maent yn adnabod un neu ddau o seiniau cychwynnol ac yn deall bod diben i greu marciau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ymwybyddiaeth a diddordeb cynyddol mewn rhif. Er enghraifft, maent yn cyfrif sgwpiau o hadau adar yn gywir wrth lenwi eu hoffer bwydo adar. Defnyddiant fagned yn fedrus i bysgota mewn twll rhew yn ardal chwarae rôl Byd y Gaeaf, ac maent yn cyfrif yr hyn y maent yn ei ddal yn gywir. Mae bron pob un o'r plant yn deall bod angen iddynt dalu am eu byrbryd gan ddefnyddio darn arian. Mae llawer o blant yn enwi ac yn adnabod siapiau dau ddimensiwn syml wrth wneud eu *collages* adar neu wrth chwarae gêm siapiau yn Gymraeg.

Mae mwynhad a hyder plant o ran defnyddio'r Gymraeg yn datblygu'n raddol. Mae bron pob un ohonynt yn ateb y gofrestr yn Gymraeg ac yn deall cwestiynau syml sy'n gysylltiedig â'r tywydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwybod enwau lliwiau cyffredin a rhai siapiau dau ddimensiwn. Mae ychydig iawn o blant mwy abl yn defnyddio ambell air neu ymadrodd yn ddigymell, fel "dim eira heddi."

Mae llawer o blant yn dangos medrau TGCh derbyniol yn ystod tasgau dan gyfarwyddyd oedolion ac yn ystod chwarae rôl. Er enghraifft, maent yn deall trwy bwyso botwm y gallant wneud i degan symud ymlaen ac yn ôl. Maent yn pwyso'r switsh ar y tegell i wneud diod yn y gornel gartref ac yn defnyddio ffonau symudol yn briodol i ffonio adref.

Mae medrau creadigol a chorfforol plant yn datblygu'n dda. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno'n frwdfrydig mewn gweithgareddau dosbarth, fel sesiynau cerddoriaeth a symud, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio offer bach a thaclau ysgrifennu gyda rheolaeth. Mae'r rhan fwyaf o blant yn aros eu tro yn amyneddgar i brynu eu byrbryd amser byrbryd, ac mae ychydig iawn ohonynt yn dechrau cyd-chwarae â ffrind. Mae'r plant hyn yn dyfalbarhau am gyfnod rhesymol, er enghraifft wrth geisio ailosod caead newydd ar offer bwydo adar neu gario brics mewn berfa i gynnal bath adar. Megis dechrau datblygu y mae medrau datrys problemau plant, fodd bynnag.

| **Gofal a datblygiad** | Da |
|---|---|

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cefnogi annibyniaeth plant yn dda amser byrbryd trwy weithgareddau fel annog plant i dywallt eu diod eu hunain a rhoi menyn ar eu tost, a thrwy olchi dwylo a glanhau dannedd. Mae sesiynau cerddoriaeth a symud rheolaidd a chwaraeon yn yr awyr agored yn annog plant i fod yn fywiog yn gorfforol.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl da. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn gyson a phwyllog gan ddefnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol. Maent yn mynd ati'n rheolaidd i ganmol ac atgoffa plant beth sy'n dderbyniol a sut i ymddwyn yn briodol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o arferion dyddiol i annog plant i gymryd eu tro, bod yn gymwynasgar, defnyddio moesau da a gwrando ar gyfarwyddiadau yn ofalus.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn eu trin yn deg. Maent yn darparu amgylchedd gofalgar a meithringar, gan fod yn ymatebol i anghenion plant. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut mae plant ifanc yn dysgu a datblygu, ar y cyfan. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio ystod eang o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb plant ac sy'n addas ar gyfer eu hanghenion, ar y cyfan. Mae ymarferwyr fel arfer yn gwybod pryd i ymyrryd yn briodol a phryd i adael i blant roi cynnig ar rywbeth drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae plant yn ymddiried yn yr ymarferwyr ac maent yn hyderus fod cymorth ar gael yn rhwydd, os bydd ei angen arnynt. Mae ymweliadau gan ymladdwyr tân, yr heddlu a'r ficer lleol yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i blant feddwl am bobl sy'n eu helpu ac yn gofalu amdanynt. Ceir cyfleoedd addas i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill trwy ddathliadau ac adnoddau.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau priodol ar waith i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol. Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos â rhieni a gofalwyr ac asiantaethau cymorth, fel therapi lleferydd, i nodi unrhyw anghenion penodol a rhoi cynlluniau priodol ar waith i fynd i'r afael â'r rhain.

Mae ymarferwyr yn deall a gweithredu polisïau a gweithdrefnau yn dda, ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiogelwch plant ac oedolion. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r rheoliadau ac nid ydynt yn destun pryder.

| | |
|---|---|
| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig)** | Da |

Mae ymarferwyr yn darparu ystod ddychmygus o brofiadau sy'n cymell plant i ddysgu. Er enghraifft, mae plant yn datblygu dealltwriaeth syml o ddeunyddiau trwy brofi p'un a yw addurniadau yn arnofio neu'n suddo yn eu hardal chwarae rôl Byd y Gaeaf. Mae'r cynllunio yn fanwl a chynhwysfawr ac yn darparu ystod dda o weithgareddau cyffrous a diddorol ar y cyfan ar draws yr holl feysydd dysgu dros gyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn nodi'n ddigonol faint o gynnydd y mae plant unigol yn ei wneud o ran llywio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn cynllunio gyda'i gilydd yn dda ac fe geir cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion a gweithgareddau wedi'u harwain gan blant.

Mae llawer o gyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar plant, yn enwedig mewn sesiynau wedi'u harwain gan oedolion a sesiynau dan gyfarwyddyd oedolion. Mae'r gornel lyfrau yn cynnwys adnoddau da ac mae'n ddeniadol, ac fe gaiff plant gyfleoedd gwerth chweil i ddarllen yn annibynnol neu eistedd gydag oedolyn i wrando ar stori. Mae amser cylch ac amser stori bob dydd yn annog medrau siarad a gwrando plant yn dda. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau defnyddiol i gefnogi datblygiad cysyniadau mathemategol plant, fel

lliw a siâp.  Maent yn defnyddio sesiynau wedi'u harwain gan oedolion yn rheolaidd i roi cyfleoedd i blant ddidoli, paru a chyfrif gwrthrychau.  Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad bob amser yn gwneud digon o ddefnydd o chwarae annibynnol plant i atgyfnerthu a gwella medrau llythrennedd a rhifedd plant.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygu dawn greadigol plant.  Er enghraifft, caiff plant wneud defnydd rheolaidd o ddeunyddiau peintio, ac o ganlyniad, maent yn creu lluniau o ansawdd da o bobl sy'n ymweld â'r lleoliad.  Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r ardal yn yr awyr agored a neuadd yr ysgol i annog plant i fod yn fywiog yn gorfforol.  Mae'r lleoliad yn hyrwyddo medrau TGCh plant yn briodol yn ystod tasgau dan gyfarwyddyd oedolion, ond nid yw mor llwyddiannus wrth annog plant i ddefnyddio TGCh ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer y Gymraeg yn datblygu'n briodol.  Mae'r Gymraeg yn weladwy ar arddangosfeydd ar draws y lleoliad, ac mae sesiynau amser cylch yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r plant.  Mae cymorth ychwanegol gan gydlynydd Cymraeg yr ysgol a chyflwyno ymadrodd yr wythnos yn dechrau gwella gallu ymarferwyr o ran defnyddio'r Gymraeg.  Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i sesiwn fwy ffurfiol ar y cyfan, ac mae hyn yn arafu'r cynnydd a wna'r plant.  Mae ymarferwyr yn dathlu diwylliant Cymru yn addas yn ystod digwyddiadau, fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo a meithrin profiadau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant mewn modd cadarnhaol.  Mae dathlu gwyliau fel Diwali, yn helpu plant i gael dealltwriaeth well o'r byd y maent yn byw ynddo.  Mae ymarferwyr yn annog gwerthoedd pwysig fel tegwch, parch a synnwyr o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn llwyddiannus.  Er enghraifft, caiff plant eu hannog i ofalu am adnoddau, rhannu teganau, cymryd eu tro a chymryd cyfrifoldeb am weini byrbrydau.  Mae arferion dyddiol, fel amser byrbryd, yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu medrau cymdeithasol pwysig fel cydweithrediad ac annibyniaeth.  Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am gynaliadwyedd trwy ailgylchu deunyddiau, fel papur a phlastig.

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i greu ethos gofalgar a chefnogol lle caiff plant eu gwerthfawrogi ac maent yn barod i ddysgu.  Mae gwaith tîm yn nodwedd gref o'r lleoliad ac mae'n sicrhau dull cyson o ran rheoli pethau fel ymddygiad plant.  Er enghraifft, mae'r holl ymarferwyr yn atgyfnerthu ymddygiad da plant, gan roi canmoliaeth reolaidd i blant sy'n defnyddio 'dwylo caredig'.  Yn gyffredinol, caiff gweithgareddau eu cynllunio a'u trefnu'n dda, ac mae sesiynau'n symud ar gyflymdra bywiog.  Fodd bynnag, ar rai adegau, mae'r cyflymdra yn hamddenol ac aiff y plant braidd yn aflonydd.  Mae gweithdrefnau asesu yn drylwyr ac addysgiadol ac yn rhoi darlun clir o gynnydd pob plentyn.  Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plentyn trwy adroddiadau ysgrifenedig manwl a thrafodaethau anffurfiol.

| **Yr amgylchedd** | Da |
|---|---|

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel a saff y tu mewn a'r tu allan.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cloi'r drysau ar ôl i'r plant gyrraedd ac maent yn cynnal gwiriadau diogelwch dyddiol cyn i weithgareddau ddechrau.  Mae arweinwyr ac

ymarferwyr yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn goruchwylio'r plant yn dda iawn. Mae adnoddau chwarae a dysgu mewn cyflwr da. Maent yn lân ac yn briodol i oedran y plant. Mae ymarferwyr yn glanhau adnoddau'n rheolaidd, ac maent yn ymwybodol fod angen lleihau heintiau i'r eithaf trwy wneud yn siŵr fod adnoddau ac ardaloedd dysgu a chwarae yn drefnus ac yn berffaith lân.

Caiff yr adeiladau eu trefnu a'u cynnal yn dda. Mae'r amgylchedd dan do yn lle ysgogol i blant ddysgu. Mae ardaloedd chwarae rôl, yn enwedig Byd y Gaeaf, yn ddeniadol ac yn annog plant i ddatblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Mae ffotograffau a gwaith plant yn creu amgylchedd croesawgar a chynhwysol, sy'n hyrwyddo eu datblygiad ac yn creu ymdeimlad o berthyn. Mae digonedd o le i blant chwarae, ac mae storio lefel isel yn galluogi'r plant i fanteisio ar adnoddau, ac mae'n cefnogi annibyniaeth plant yn dda. Mae gwelyau addas ar gael i blant os ydynt yn teimlo'n flinedig neu'n anhwylus.

Mae'r ardal awyr agored yn lân ac yn rhydd o sbwriel ac mae'n cynnig ystod dda o gyfleoedd i ddatblygu medrau plant. Er enghraifft, mae'r gegin fwd yn hyrwyddo medrau corfforol plant yn dda, ac mae'r goeden fawr ar y tir yn annog dealltwriaeth plant o'r tymhorau.

| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | Da |
|---|---|

Mae gan yr unigolyn cyfrifol ac arweinydd y lleoliad weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad lle caiff plant eu gwerthfawrogi a'r dechrau gorau posibl mewn bywyd. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gydag ymarferwyr a rhieni. Mae pob un o'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, gyda synnwyr clir o ddiben i gyflawni nodau'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn rhagori ar y safonau gofynnol cenedlaethol yn rheolaidd ac yn cydymffurfio â bron pob un o'r rheoliadau, ac eithrio mân broblem yn ymwneud â diffyg cydymffurfio a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad. Ni nodwyd unrhyw broblemau eraill yn ymwneud â diffyg cydymffurfio. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi adolygu a diweddaru'r holl bolisïau a gweithdrefnau yn ddiweddar i sicrhau diogelwch plant a staff.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn gymharol newydd i'r lleoliad, ond mae eisoes yn dangos arweinyddiaeth gref. Er enghraifft, mae wedi diweddaru'r datganiad o ddiben i'w wneud yn ddogfen addysgiadol a deniadol ac mae wedi cynnal adolygiad manwl o ansawdd y gofal sy'n blaenoriaethu camau gweithredu ac yn arfarnu effaith y newid yn briodol. Mae hi wedi trefnu sesiynau anogaeth wythnosol hefyd ac wedi cynorthwyo'r arweinydd i ddatblygu trefniadau pontio gwell o'r lleoliad i'r ysgol. Mae'r unigolyn cyfrifol a llywodraethwr cyswllt y lleoliad yn hysbysu'r corff llywodraethol yn dda am gynnydd y lleoliad trwy adroddiadau llafar ac ysgrifenedig tymhorol.

Mae gan yr unigolyn cyfrifol ac arweinydd y lleoliad ddisgwyliadau uchel o staff ac maent yn eu herio'n briodol i sicrhau profiadau dysgu o ansawdd da ar gyfer plant dan do ac yn yr awyr agored. Mae systemau gwerthuso staff ar waith erbyn hyn, ac mae pob un o'r ymarferwyr yn gwybod sut mae eu targedau'n cyfrannu at lwyddiant y lleoliad yn gyffredinol. Mae arweinydd y lleoliad yn darparu arweinyddiaeth werthfawr i'r lleoliad o ddydd i ddydd. Mae'n adnabod ei staff yn dda ac mae'n dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i wella'r ddarpariaeth gyffredinol. Er enghraifft, mae wedi nodi aelod o staff i arwain o ran y Gymraeg a TGCh. Mae prosesau effeithiol ar waith ar gyfer recriwtio a defnyddio staff ac mae gan bob un o'r ymarferwyr gymwysterau addas.

Mae hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda ac mae pob un o'r ymarferwyr yn cymryd rhan mewn arfarnu gwaith y lleoliad. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i farn plant, rhieni, ymarferwyr, yr athrawes ymgynghorol a'r llywodraethwr ysgol sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, o ran gosod blaenoriaethau. Mae'r lleoliad yn datblygu hanes da o ran ysgogi newidiadau sydd o fudd i'r plant. Er enghraifft, yn 2014-2015, nododd y lleoliad fod angen gwella'r cyfnod pontio i'r ysgol. O ganlyniad, caiff plant eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae cynllun gwella'r lleoliad yn ddogfen ddefnyddiol ac mae'n cysylltu'n glir â blaenoriaethau hunanarfarnu. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant perthnasol, sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau i blant, yn gyffredinol.

Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau, sy'n cefnogi dysgu a lles plant yn effeithiol. Mae partneriaethau â rhieni a gofalwyr yn hynod gryf ac yn cefnogi dysgu plant gartref yn dda. Er enghraifft, mae plant yn cael benthyg llyfrau bob wythnos i'w darllen gyda'u rhieni gartref. Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda trwy gylchlythyrau rheolaidd a hysbysfyrddau yn y cyntedd. Mae rhieni'n gwerthfawrogi lefel y gofal a'r pryder y mae ymarferwyr yn ei dangos at eu plant. Ceir partneriaeth weithio agos â'r ysgol. Er enghraifft, y llywodraethwr cyswllt yw'r athrawes dosbarth meithrin a derbyn sydd â chyfrifoldeb am les yn yr ysgol. Mae'n darparu cyngor amserol ar faterion yn gysylltiedig â lles, ac mae'n cefnogi'r lleoliad â'i nod i ennill gwobr am hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gan blant. Mae gan y lleoliad drefniadau partneriaeth gwerth chweil gydag athrawes ymgynghorol a gwasanaethau cymorth yr awdurdod lleol, sydd o fudd i'r plant. Er enghraifft, darperir therapi lleferydd ac iaith yn y lleoliad, ac mae ymwelwyr iechyd yn ymweld yn rheolaidd. Mae Swyddog Cyswllt Teuluol yr Ysgol yn gweithio'n agos ag ymarferwyr yn y lleoliad i gydlynu cymorth ar gyfer plant a theuluoedd unigol pan fydd angen.

Mae gan y lleoliad brosesau cadarn ar gyfer adolygu gwariant yn gyson. Mae wedi cynllunio'n ofalus ar gyfer defnyddio'i Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar i gynorthwyo'r plant sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac mae ffocws addas ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

# Atodiad 1

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – ddim yn berthnasol.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 24 | 21 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child likes this setting. | 24 | 19 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I received information about the setting that enabled me to make an informed choice about whether to use the setting. | 24 | 16 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cefais wybodaeth am y lleoliad a wnaeth fy ngalluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch p’un ai i ddefnyddio’r lleoliad. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 24 | 20 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child has a keyworker who ensures that his or her needs are met. | 23 | 14 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae gweithiwr allweddol gan fy mhlentyn, sy’n sicrhau bod ei anghenion / ei hanghenion yn cael eu bodloni. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is making good progress at the setting. | 24 | 20 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| Children behave well in the setting. | 24 | 16 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| Care is good. | 24 | 19 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae’r gofal yn dda. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| Teaching is good. | 24 | 18 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 18 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 24 | 14 | 10 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at the setting. | 23 | 16 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 23 | 17 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 23 | 18 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 23 | 18 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 23 | 15 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 21 | 13 | 8 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 13 | 8 | 0 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| The setting is well run. | 22 | 19 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |

## Atodiad 2

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn a gwefan AGGCC ( www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae'r term hwn yn cwmpasu ystod eang iawn o anghenion. Rydym yn defnyddio'r term anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion heblaw anghenion y rhan fwyaf o blant eraill yn y lleoliad, am nifer o resymau gwahanol. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>A1 datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>A2 medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>A3 datblygiad mathemategol<br>A4 datblygu'r Gymraeg<br>A5 gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>A6 datblygiad corfforol<br>A7 datblygiad creadigol |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir fel ei gilydd. |
| **Dechrau'n Deg** | Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim ar gyfer plant dwy oed cymwys i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a'u paratoi ar gyfer yr ysgol. Maent hefyd yn darparu lefelau cynyddol o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |
| **Unigolyn allweddol neu system** | Ymarferwr sy'n cael ei neilltuo ar gyfer pob plentyn yw hwn/hon fel bod unigolyn cyfarwydd, y gall y plentyn |

| | |
|---|---|
| **gweithwyr allweddol** | ymddiried ynddo, ar gael iddo fel ei fod yn teimlo'n ddiogel a chyfforddus. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys yr Unigolyn Cofrestredig, Unigolyn Cyfrifol neu Unigolyn sydd â Gofal<br>• Unigolyn cofrestredig – yr unigolyn sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gallai hwn fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br>• Unigolyn cyfrifol – lle mae'r unigolyn cofrestredig yn sefydliad, dyma'r unigolyn sy'n cael ei enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar eu rhan<br>• Unigolyn sydd â gofal – yr unigolyn sy'n cael ei benodi gan yr unigolyn cofrestredig i fod yng ngofal y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Ymarferwyr** | Pawb sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant mewn lleoliad. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hyrwyddo'u lles. |